



GIG
CYMRU
NHS
WALES


Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Gwybodaeth i Gleifion Systectomi Radical a Ffuriant Pibell ddŵr Ilëol

Adran Wroleg

Beth yw Systectomi Radical?

Mae hyn yn golygu tynnu'r bledren, y nodau lymff pelfig a rhywfaint o'r meinwe o'i chwmpas – **gweler y diagram isod**. I ddynion, mae'r chwarren brostad a'r fesiclau semen hefyd yn cael eu tynnu. I fenywod, mae'n bosibl y bydd y groth, yr ofarïau a phen uchaf wal y fagina hefyd yn cael eu tynnu, yn dibynnu ble mae'r cancer.



Atgynhychwyd drwy ganiatâd Health Press Ltd, Oxford

Beth yw Pibell ddŵr Ilëol?

Dull o ddraenio wrin allan o'r corff ar ôl tynnu'r bledren - **gweler y diagram uchod a "Beth mae'r llawdriniaeth yn ei olygu"**.

Pa fudd ddaw o'r llawdriniaeth hon?

Y nod yw gwella cancer y bledren.

Beth yw'r risgiau?

Cyffredin Haint oherwydd gosod draeniau dros dro, neu stentiau ar ôl llawdriniaeth

Gwaedu sy'n arwain at drallwysiad gwaed

(Menywod) Poen neu anhawster yn ystod cyfathrach rywiol a hynny oherwydd culhau neu fyrhau'r fagina. Gall menopos ddigwydd os bydd yr ofariau'n cael eu tynnu.

(Dynion) Risg uchel o anallu i gael codiad. Cleimacs sych. Ffrydio gwrthdroadol yr had: semen ddim yn cael ei gynhyrchu gan achosi anffrwythlondeb

Yn achlysurol Colli gwaed fydd yn arwain at lawdriniaeth bellach
Efallai na fydd y canser yn gwella

(Dynion) Gallai fod angen tynnu'r wrethra (pibell ddŵr) yn ystod y llawdriniaeth neu'n maes o law.

Prin Hernia neu Haint yn y toriad fydd yn arwain at driniaeth bellach.
Problemau'r galon neu anesthetig a allai olygu y byddwch yn cael eich anfon i uned gofal dwys (gan gynnwys haint y frest, ceulad yn yr ysgyfaint neu'r goes, strôc, trawiad y galon a marwolaeth)
Lleihad yng ngweithrediad yr arennau dros amser

Prin iawn
Dolur rhydd oherwydd byrhau'r coluddyn/diffyg fitaminau fyddai'n golygu y byddai angen triniaeth
Gollyngiad o'r coluddyn ac wrin o anastomosis (uniad) fyddai'n arwain at lawdriniaeth bellach
Creithiau ar y coluddyn neu'r wreterau fyddai'n arwain at lawdriniaeth bellach yn y dyfodol. Creithio, culhau neu hernia o amgylch agoriad y stoma fyddai'n arwain at lawdriniaeth bellach. Difrod i'r coluddyn yn ystod llawdriniaeth fyddai'n arwain at gael colostomi.

A oes unrhyw ddewis arall?
Triniaeth ymbelydrol ar y bledren, dargyfeirio cynhwyster wrin.

Os yw'r opsiynau hyn yn addas i chi, bydd eich meddyg wedi'u trafod gyda chi ac wedi rhoi esboniad manylach i chi.

Beth fydd yn digwydd cyn y llawdriniaeth?

Cyn eich llawdriniaeth byddwn yn gofyn i chi fynychu'r Clinig Cyn Derbyn er mwyn gwirio eich bod yn ddigon iach ar gyfer eich llawdriniaeth. Byddwn yn gofyn cwestiynau i chi am eich iechyd cyffredinol a byddwch yn cael rhai neu bob un o'r profion canlynol: profion gwaed ac wrin, prawf pelydr-x o'r frest ac ECG (mesur y galon). Mae'r rhain yn brofion arferol cyn llawdriniaeth. Byddwch hefyd yn cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau.

Byddwch yn cael eich cyfeirio at y Nyrs Stoma sy'n arbenigo mewn gofalu am gleifion sy'n cael y math hwn o lawdriniaeth. Byddant naill ai'n eich gweld gartref cyn eich llawdriniaeth neu pan fyddwch yn dod i'r ysbyty. Byddan nhw'n trafod y

llawdriniaeth gyda chi, yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ac yn penderfynu ble y dylid gosod eich stoma (gweler "Beth mae'r llawdriniaeth yn ei olygu").

Triniaeth Ychwanegol

Byddwch yn dechrau cael pigiadau isgroenol dyddiol o Fragmin (Daletparin) ar ôl eich llawdriniaeth, mae hwn yn helpu i leihau eich risg o glotiau gwaed hefyd. Bydd y nyrs ar y ward yn eich dysgu sut i wneud hyn ar eich pen eich hun gan fod angen parhau â'r driniaeth hon am 4 wythnos. Mae tystiolaeth gyfredol gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd Clinigol (NICE) yn argymhell rhoi'r driniaeth hon i gleifion sy'n cael llawdriniaeth canser fawr i leihau eu risg o ddatblygu thrombosis gwythiennau dwfn (DVT) neu emboledd ysgyfeiniol.

Eich llawdriniaeth

Byddwch yn cael eich derbyn i'r ward y diwrnod cyn neu ar fore'ch llawdriniaeth, byddwch yn cael gwybod pryd yn union yn y clinig cyn derbyn. Bydd anesthetidd yn eich gweld bryd hynny i drafod eich anesthetig a rheoli'ch poen. Bydd meddyg yn trafod y llawdriniaeth a chymhlethdodau posibl unwaith eto, yn ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych ac yn gofyn i chi lofnodi eich ffurflen ganiatâd eto.

Bydd gofyn i chi beidio â bwyta nac yfed unrhyw hylifau nad ydynt yn glir, fel cawl, llaeth ac ati, am 6 awr cyn eich llawdriniaeth. Gallwch gael hylifau clir (dŵr/sgwash) hyd at 2 awr cyn eich llawdriniaeth. Wedi hynny bydd gofyn i chi beidio ag yfed dim byd o gwbl. **Os ydych yn ddiabetig sy'n ddibynnol ar inswlin, bydd angen cyfarwyddyd arbennig arnoch. Trafodwch hyn gyda'ch nyrs.**

Byddwch yn cael dau dawddgyffur a fydd yn gwneud i chi wagio'ch coluddyn; bydd y carthydd hwn yn sicrhau bod eich coluddyn yn lân cyn eich llawdriniaeth.

Cyn mynd i'r theatr byddwn yn gofyn i chi gael cawod a gwisgo gŵn ysbyty a sanau arbennig. Mae'r sanau hyn yn helpu i leihau eich risg o gael clotiau yn eich coesau. Os ydych yn teimlo'n bryderus ac os yw hynny'n briodol, efallai y byddwch wedi cael presgripsiwn am feddyginiaeth i ymlacio (pre-med), bydd hon yn cael ei rhoi i chi ar y ward cyn i chi fynd i'r theatr. Bydd nyrs yn mynd gyda chi i'r theatr lle byddwch yn cael eich cludo i'r ystafell anesthetig er mwyn cael eich anesthetig.

Beth fydd yn digwydd yn ystod y llawdriniaeth ?

Bydd toriad yn cael ei wneud ar eich abdomen (bol) o ochr uchaf eich bogail i asgwrn yr arffed i alluogi'r meddyg i gyrraedd y bledren. Pan fydd y bledren wedi'i thynnu, bydd angen i'ch meddyg greu ffordd arall i'ch wrin fedru draenio o'r corff; bydd hyn yn cael ei wneud drwy ffurfio stoma. Enwau eraill y gallech eu clywed am stoma yw pibell ddŵr ilëol neu wrostomi.

Defnyddir darn bach o'r coluddyn fel arfer i ffurfio pibell ddŵr ilëol/stoma. Bydd y meddyg yn torri darn bach o'ch coluddyn (ni ddylai tynnu hwn effeithio ar sut mae'ch coluddyn yn gweithio). Yna caiff yr wreterau (tiwbiau sy'n draenio wrin o'r arenau) eu gwnïo i mewn i un pen o'r darn bach o goluddyn a dynnwyd, ac wedyn gall wrin ddraenio iddo. Daw'r pen arall allan drwy agoriad bach yn eich abdomen er

mwyn gwneud y stoma. Yna gall wrin ddraenio o'r wreterau, trwy'r darn coluddyn ac allan trwy'r stoma i fag arbennig sydd yn cael ei osod o gwmpas eich stoma. Mae'r bag yn cael ei ddal yn ei le gan ddefnydd gludiog sydd ynghlwm wrth y bag.

Bydd y llawdriniaeth yn cymryd tua 4 awr. Ar ôl y llawdriniaeth, byddwch yn cael eich cludo i'r ystafell adfer a byddwch yn aros yno am awr neu fwy cyn mynd yn ôl i'ch ward. Mae hyn yn rhoi amser i chi wella o'r anesthetig. Byddwch yn gysglyd pan fyddwch yn dychwelyd i'r ward ac efallai mai dim ond perthynas agos byddwch chi am ei weld ar y diwrnod cyntaf er mwyn i chi gael amser tawel i wella. Gall perthnasau neu ffrindiau eraill ffonio'r ward i gael gwybod eich hanes chi.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y llawdriniaeth?

Bydd y nyrsys yn gwirio'ch pwysedd gwaed, cyfradd curiad eich calon, eich anadlu, eich poen a'ch allbwn wrin yn rheolaidd. Wrth i chi wella bydd y gwiriadau hyn yn cael eu gwneud yn llai aml.

Mae rhestr o'r tiwbiau a'r draeniau y byddwch, o bosibl yn eu cael, isod. Peidiwch â phoeni amdanynt, maen nhw yno i roi hylifau i chi neu i ddraenio hylifau o'ch corff. Fel arfer byddant yn cael eu tynnu wrth i chi wella.

- **Ocsigen** Efallai y byddwch yn derbyn ocsigen ychwanegol am gyfnod byr ar ôl eich llawdriniaeth tan y byddwch yn fwy effro a bywiog.
- **Trwyth mewnwythiennol** – (IVI neu ddrip) – Bydd caniwla (tiwb plastig tenau) yn cael ei osod mewn gwythien yn eich braich a/neu'ch gwddf a bydd hylif yn cael ei roi i chi drwy hwn i wneud yn siŵr nad ydych chi'n dadhydradu. Mae'n bosibl iddo gael ei ddefnyddio hefyd i roi gwrthfotigau mewnwythiennol, gwaed ac ati i chi. Pan fyddwch yn yfed unwaith eto a ddim yn teimlo'n sâl bydd yr IVI yn cael ei dynnu.
- **Draeniad** - Bydd gennych un draen (tiwb) yn dod allan o ran isaf yr abdomen. Mae hwn yn draenio gwaed neu hylif a all grynhoi ar ôl cael tynnu'ch prostad. Fel arfer caiff hwn ei dynnu ar ôl diwrnod neu ddau. Os oes tipyn o hylif yn dal i lifo, caiff y tiwb ei adael i mewn ychydig yn hirach
- **Stoma** -. Bydd gennych 2 diwb bach (stentiau) fydd yn dod allan o'ch stoma. Mae'r rhain yn dod i lawr yr wretrau (tiwbiau o'r aren) ac allan trwy'r stoma. Maen nhw'n cynorthwyo'r uniadau lle mae'r wretrau wedi'u gwnïo i'r stoma i wella.

Fel arfer caiff y tiwbiau eu tynnu ar ôl 10 diwrnod. Os ewch chi adref cyn hyn, bydd eich nyrs yn trefnu iddyn nhw gael eu tynnu i chi fynd adref.

- **Clwyf** - bydd gennych orchudd dros y clwyf am ychydig ddyddiau ar ôl y llawdriniaeth. Bydd clipiau wedi'u gosod i gadw'r clwyf ynghau. Mae'r rhain yn edrych yn union fel staplau ac fel arfer byddan nhw'n cael eu tynnu 10 diwrnod ar ôl y llawdriniaeth. Bydd y clwyf yn gwella ac ymhen amser bydd y graith yn pylu.

- **PCA** (Analgesia dan Reolaeth y Claf) neu **Epidwral** i reoli'ch poen. Bydd yr anesthetydd wedi trafod y rhain gyda chi cyn y llawdriniaeth. Pan fyddwch chi'n bwyta ac yn yfed ac yn gallu cymryd poenladdwyr drwy'r geg, bydd y PCA/Epidwral yn cael ei dynnu. Mae'n bwysig bod eich poen yn cael ei reoli, os na fydd, rhowch wybod i'ch nyrs.
- Byddwch yn cael eich annog i godi a symud cyn gynted â phosibl. Mae hyn er mwyn helpu i leihau cymhlethdodau fel heintiau'r frest, doluriau pwysau neu geulad yn y goes (Thrombosis Gwythiennau Dwfn - DVT).

Pryd fyddaf yn gallu mynd adref?

Dylech fod yn barod i fynd adref ar ôl 7 diwrnod. Cyn i chi adael, byddwn yn dangos i chi sut i drafod eich stoma. Byddwch yn cael rhifau cyswllt rhag ofn y bydd gennych unrhyw broblemau.

A fyddaf yn cael unrhyw ddilyniant?

Bydd apwyntiad cleifion allanol yn cael ei drefnu i chi ddod yn ôl i'r clinig 4-6 wythnos ar ôl eich llawdriniaeth er mwyn cael canlyniadau eich histoleg.

Gwybodaeth am Ryddhau

Gofalu am eich clwyf

Bydd eich clipiau'n cael eu tynnu ymhen 10 diwrnod. Bydd nyrsys y ward yn trefnu i Nyrs Ardal neu Nyrs Practis eu tynnu os byddwch yn cael eich rhyddhau cyn hyn. Dylai eich clwyf fod wedi gwella'n dda ar y tu allan erbyn hyn ac fel arfer ni fydd angen unrhyw orchudd arno. Os yw'ch clwyf yn cochi, yn boenus/yn boeth pan fyddwch yn ei gyffwrdd neu os yw'n gollwng hylif/crawn, dylech gysylltu gyda'r nyrs ardal neu feddyg teulu am gyngor, efallai eich bod wedi datblygu haint yn y clwyf.

Gofalu am eich stoma

Byddwch yn cael eich rhyddhau pan fyddwch chi a'r nyrs stoma yn hapus y gallwch ofalu am eich stoma. Gwnewch yn siŵr bod gennych ddigon o fagiau a chyflenwadau ar gyfer eich stoma cyn i chi fynd adref a bod gennych rif ffôn y nyrs stoma rhag ofn y bydd angen i chi gysylltu. Ar ôl cael eich rhyddhau, bydd eich nyrs stoma yn ymweld â chi gartref i wneud yn siŵr eich bod yn ymdopi.

Meddyginiaethau i'w cymryd gartref

Efallai y byddwch yn cael poenladdwyr i'w cymryd gartref, defnyddiwch nhw yn ôl yr angen ond dim mwy na'r dos a argymhellir. Bydd eich nyrs yn trafod hyn gyda chi cyn i chi fynd adref. Dylech barhau i gymryd eich meddyginiaethau arferol oni bai eich bod yn derbyn cyngor gwahanol.

Dylech barhau â'ch pigladau Fragmin nes bod y cwrs 4 wythnos yn dod i ben.

Sanau

Dylech barhau i'w gwisgo am 4 wythnos ar ôl eich llawdriniaeth

Y coluddyn

Gall rhwymedd fod yn broblem ar ôl eich llawdriniaeth, efallai y bydd angen carthydd arnoch nes bod pethau'n dod yn ôl i drefn. Gofynnwch i'ch nyrs neu feddyg am gyngor os yw hyn yn broblem.

Ymolchi

Gallwch gael bath neu gawod pan fyddwch wedi cyrraedd adref, a dylech sychu'r ardal o gwmpas eich clwyf yn ysgafn yn hytrach na'i rwbio'n galed.

Gyrru

Dylech aros o leiaf 4-6 wythnos ac osgoi teithiau hir yn ystod y cyfnod yma. Gallwch yrru unwaith eto pan fyddwch chi'n teimlo'n gyfforddus i fedru stopio'n sydyn. Gwiriwch gyda'ch Cwmni Yswiriant, mae gan rai cwmnïau ganllawiau llym ynghylch pryd y cewch chi yrru eto.

Rhyw

Byddwch yn gallu aildechrau gweithgarwch rhywiol pan fyddwch chi'n teimlo'n gyfforddus i wneud hynny ond efallai yr hoffech aros 6-8 wythnos cyn cael cyfathrach rywiol er mwyn gwella. Gall menywod brofi poen neu anhawster gyda chyfathrach rywiol ar ôl llawdriniaeth oherwydd culhau neu fyrhau'r fagina. Efallai y bydd angen i chi roi cynnig ar wahanol ffyrdd neu safleoedd gwahanol er mwyn dod o hyd i'r hyn sy'n haws i chi.

Mae llawer o **ddynion** yn methu cael codiad ar ôl llawdriniaeth oherwydd bod y nerfau sy'n angenrheidiol ar gyfer codiadau wedi'u difrodi neu eu torri. Mae triniaethau ar gael i helpu i oresgyn hyn. Os ydych chi'n cael problemau, gallwch drafod hynny gyda'ch meddyg neu nyrs.

Gwaith

Fel arfer gallwch ddychwelyd i'r gwaith ar ôl tua 6-8 wythnos, mae hyn yn dibynnu ar y math o waith rydych chi'n ei wneud. Gall y rhai sy'n gwneud gwaith corfforol, neu waith sy'n cynnwys codi pethau trwm, fod angen 8-12 wythnos o'r gwaith. Dylech drafod hyn gyda'ch meddyg cyn i chi adael yr ysbyty. Os oes angen tystysgrif salwch arnoch chi, dylech ofyn i nyrsys y ward. Efallai y bydd angen i chi gael tystysgrif ychwanegol gan eich meddyg teulu unwaith y bydd y dystysgrif ysbyty yn dod i ben.

Cyngor cyffredinol

Byddwch yn gallu bwyta ac yfed fel arfer.

Cymerwch bwyll am tua 4-6 wythnos ond gwnewch ychydig o ymarfer corff ysgafn fel cerdded, gan gynyddu'r hyn rydych yn ei wneud yn raddol, yn ôl eich gallu i wneud hynny.

Ceisiwch osgoi gwneud ymarfer corff egniol am 6-8 wythnos.

Ceisiwch osgoi codi pethau trwm am 6-8 wythnos.

Os ydych chi'n byw ar eich pen eich hun neu'n oedrannus efallai y byddwch chi'n dymuno i ffrind neu berthynas aros gyda chi yn ystod yr ychydig ddyddiau cyntaf.

Os bydd angen cymorth arnoch yn eich cartref ar ôl i chi gael eich rhyddhau, dylech drafod hyn yn ystod eich ymweliad cyn derbyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, mae rhifau cyswllt y wardiau Wroleg a'r nyrsys Wroleg isod:-

Ward Wroleg D2 y Dwyrain

Rhif Ffôn:- 01633 - 234043 / 234044

24 awr

Nyrsys Clinigol Arbenigol Wro-Oncoleg

Julie Simpson

Louise Broadway

Kath Connor-Middleton

Jess Morgan

Rhif Ffôn: 01633 – 238976 (bydd negeseuon llais yn cael eu hateb pan na fydd y staff ar ddyletswydd glinigol)

Oriau swyddfa Dydd Llun – Dydd Gwener

Nyrs Ymarfer Wroleg

Laura Reynolds

Rhif Ffôn:- 01633 – 234758

Oriau swyddfa Dydd Llun – Dydd Gwener

Gwybodaeth Bellach

Mae'r elusennau canlynol yn cynnig rhagor o wybodaeth ysgrifenedig a llinellau cymorth i gleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser.

Action on Bladder Cancer

Action on Bladder Cancer (ABC)

d/o ABC Secretariat

Right Angle Communications

Barley Mow Centre, 10 Barley Mow Passage, Llundain W4 4PH

Rhif Ffôn: 020 3142 6491 Gwefan: www.actiononbladdercancer.org

Cymorth Canser Macmillan Cancer Support

89 Albert Embankment, Llundain SE1 7UQ

Rhif Ffôn: 0808 808 0000 (Llun-Gwener 0900-2000)

Gwefan: www.macmillan.org.uk

Ymchwil Canser y DU Cancer Research UK

Cancer Research UK

Angel Building, 407 St John Street, Llundain EC1V 4AD

Rhif ffôn: (Gwasanaeth Cymorth) 0300 123 1861

(Switsfwrdd) 020 7242 0200

Gwefan: www.cancerresearchuk.org

Sefydliad Dewi Sant

Tŷ Cambrian, Heol St. John, Casnewydd NP19 8GR

Rhif ffôn: 01633 270980

E-bost: enquiries@stdavidsfoundation.co.uk

Gwefan: www.stdavidsfoundation.co.uk

Age Concern - Cymorth a chefnogaeth i'r rhai dros 60 oed

Age Cymru, Tŷ John Pathy, 13/14 Llys Neptune, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF 24
5PJ

Rhif ffôn: 02920 - 431555/0800 169 6565

Gwefan: www.ageuk.org.uk/cymru

Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmegu

Rhif ffôn: 0800 085 2219

Cyfeiriadau:

British Association of Urological Surgeons (2004) Procedure Specific Consent Forms
for Urological Surgery

National Institute for Health and Clinical Excellence (NICE) 2010 Venous
Thromboembolism: reducing the risk

Tanagho EA, McAninch JW (2003) Smiths General Urology

**“This document is available in English /
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg”.**